

# CYNEFINOEDD CYFFREDIN A GEIR AR EIN FFERMYDD

# COMMON HABITATS FOUND ON OUR FARMS

» Daethom o hyd i **28 o wahanol fathau o gynefinoedd** ar draws Ein Ffermydd, sy'n nifer trawiadol, a gwnaethom **arolygu dros 2,000 hectar** yn rhan o'r broses.

» Mae'r rhain yn nodweddiadol o ffermydd yng Nghymru, ac mae'n debygol y bydd gennych chi ardaloedd tebyg o dir ar eich fferm chi.

» We found an impressive **28 different habitat types** across Our Farms and we **surveyed over 2,000 hectares** as part of the process.

» These are typical of farms in Wales and it is likely you will have similar areas of land on your farm.



## Glaswelltir sydd wedi'i wella / Improved grassland

Bydd y rhain yn cynnwys mwy na 25% o rygwellt, meillion a rhywogaethau glaswellt y mae'n well ganddynt lefelau uchel o faetholion fel rhonwellt y ci a maswellt penwyn. Mae planhigion blodeuol yn y glaswelltir yn debygol o gynnwys meillion, llygad y dydd, dant y llew, glwyd yr ier ac ysgallen y maes. Gall fod clystyrau o dafol a danadl poethion hefyd.

*These will contain more than 25% of ryegrasses, clovers and grass species that prefer high nutrient levels such as crested dog's tail and Yorkshire fog. Flowering plants in the swards are likely to be clover, daisies, dandelions, chickweeds and creeping thistles. There may also be patches of docks and nettles.*



## Glaswelltiroedd wedi'u lled-wella / Semi-improved grasslands

Bydd gan y rhain lai na 25% o rygwellt a meillion a chânt eu categorioeddio ymhellach yn ôl y math o bridd, e.e. asidig, calchaid neu niwtral. Bydd gan y glaswelltiroedd hyn fwy o blanhigion blodeuol gan gynnwys tresgl y moch, y bengaled, pys y ceirw a heboglys. Bydd y rhywogaethau sy'n bresennol yn amrywio yn ôl y math o bridd, topograffeg ac uchder. Mae'r ardaloedd hyn yn fuddiol iawn i amrywiaeth eang o fioamrywiaeth gyda'r planhigion blodeuol yn darparu bwyd i lawer o bryfed a fydd yn eu tro yn fwyd i amrywiaeth o adar. Mae twmpathau morgrug hefyd i'w cael yn gyffredin yn y glaswelltiroedd hyn. Gellir dod o hyd i ffyngau cap cwyr hefyd mewn porfeydd sy'n cynnwys mwsogl a lle mae'r glaswellt yn cael ei gadw'n fyr.

*These will have less than 25% ryegrass and clovers and will be further categorised according to soil type, e.g. acid, calcareous or neutral. These grasslands will have a greater number of flowering plants including tormentil, knapweed, bird's foot trefoil and hawkweeds. The species present will vary according to the soil type, topography and altitude. These areas are very beneficial to a wide range of biodiversity with the flowering plants providing food for many insects which in turn will be feeding a variety of birds. Anthills are also commonly found in these grasslands. Wax cap fungi may also be found in pastures that contain moss and the grass is kept short.*



## Glaswelltir corsio neu borfa rhos / Marshy grassland or rhos pasture

Nodweddir porfa rhos gan ardaloedd llaith a ddominyddir gan laswellt y gweunydd (Molinia), rhywogaethau brwyn tal, erwain ac o bosibl gellesgen felen. Mae glaswellt y gweunydd yn dod yn drech, ac mae'n ffurfio twmpathau trwchus nad ydynt yn flasus iawn i ddefaid, a gall gael ei dan-bori'n rhwydd. Mae gwartheg yn ddefnyddiol ar gyfer rheoli'r ardaloedd hyn. Rhwng y twmpathau, efallai y bydd modd gweld planhigion blodeuol fel carpiog y gors, tresgl y moch ac ysgallen y gors.

*Rhos pasture is characterised by damp areas dominated by purple moor grass (Molinia), tall rush species, meadowsweet and possibly yellow flag iris. The purple moor grass becomes very dominant and forms dense tussocks that are not very palatable to sheep and can easily become under grazed. Cattle are useful for managing these areas. Between the tussocks it may be possible to see flowering plants such as ragged robin, tormentil and marsh thistle.*



## Rhostir - Ucheldir neu Iseldir / Heath - Upland or Lowland

Mae cynefinoedd rhostir fel arfer yn cynnwys rhywfaint o laswellt, ond bydd ganddynt bob amser fwy na 25% o gorlwyni fel grug, llus, creiglus ac eithin mân. Mae rhostir yr ucheldir yn ffurfio brithwaith gydag ardaloedd o laswelltir a chors ac mae wedi'i leoli uwchben terfyn uchaf y caeau amaethyddol fel y dangosir yn y llun isod. Mae rhostir wedi'i ddsbarthu fel iseldir lle mae'n digwydd islaw ffin y caeau.

*Heath habitats usually include some grass but they will always have more than 25% of dwarf shrubs such as heather, bilberry, crowberry and western gorse. Upland heath forms a mosaic with areas of grassland and bog and is situated above the upper limit of agricultural enclosure as shown in the photo below. Heath is classified as lowland where it occurs below the enclosure line.*



## Cynefinoedd agored yr ucheldir / Upland open habitats

Mae'r rhain yn gorchuddio ardaloedd eang o ucheldir Cymru a byddant yn gymysgedd o laswelltir asidig, gorgors, rhostir a glaswelltir corsio. Mae'n debygol hefyd y bydd ardaloedd sy'n cael eu dosbarthu fel 'ffridd', sef ardaloedd o laswelltir neu weundir sy'n cynnwys coed gwasgaredig (bedw, crafal a draen gwynion) a rhedyn.

*These cover expansive areas of upland Wales and will be a mix of acid grassland, blanket bog, heath and marshy grassland. It is also likely there will be areas that are classified as ffridd which are areas of grassland or heathland that includes scattered trees (birch, rowan and hawthorn) and bracken.*



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

